

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

19/09/06

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Datblygiad Economaidd Economic Development

C12 Alun Ffred Jones: Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer datblygu economaidd? OAQ1809(FM)

Q12 Alun Ffred Jones: What are the Welsh Assembly Government's priorities with regard to economic development? OAQ1809(FM)

Y Prif Weinidog: Mae 'Cymru: Economi yn Ffynnu' yn nodi'r weledigaeth a'r fframwaith strategol ar gyfer datblygu economaidd. Mae'r dull hwn o weithredu'n canolbwyntio ar annog twf cynaliadwy drwy godi ansawdd y swyddi yng Nghymru a helpu mwy o bobl i gael gwaith.

The First Minister: 'Wales: A Vibrant Economy' sets out the vision and strategic framework for economic development. The approach focuses on encouraging sustainable growth through raising the quality of jobs in Wales and helping more people into work.

Y Rhaglen Gydgyfeirio (y Gorllewin a'r Cymoedd) The Convergence Programme (West Wales and the Valleys)

Q13 Christine Chapman: Will the First Minister make a statement on the proposed priorities and themes of the convergence programme for west Wales and the Valleys? OAQ1796(FM)

C13 Christine Chapman: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y blaenoriaethau a'r themâu a gynigir ar gyfer rhaglen gydgyfeirio'r gorllewin a'r Cymoedd? OAQ1796(FM)

The First Minister: In line with WAG policies and the Lisbon agenda, the priorities and themes of our new programmes will have a much stronger focus on boosting growth and increasing jobs, with an emphasis on building a strong knowledge economy, improving the skill levels of our workforce and reducing economic inactivity.

Y Prif Weinidog: Yn unol â pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac agenda Lisbon, bydd blaenoriaethau a themâu ein rhaglenni newydd yn canolbwyntio llawer mwy ar hybu twf a chynyddu swyddi, gyda phwyslais ar adeiladu economi wybodaeth gref, gwella lefelau sgiliau ein gweithlu a lleihau anweithgarwch economaidd.

Y Diwydiant Gweithgynhyrchu (Gogledd Cymru) The Manufacturing Industry (North Wales)

Q14 Mark Isherwood: Will the First Minister make a statement on the manufacturing industry in north Wales? OAQ1786(FM)

C14 Mark Isherwood: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y diwydiant gweithgynhyrchu yn y gogledd? OAQ1786(FM)

The First Minister: Manufacturing remains robust in north Wales and we are seeing a

Y Prif Weinidog: Mae gweithgynhyrchu yn parhau i fod yn gadarn yn y gogledd ac yr

steady level of investment in the sector. A good example is Kingspan in Flintshire, for which I recently opened a new international customer visitor centre, demonstrating the commitment the company has to its production operations in the region.

ydym yn gweld lefel gyson o fuddsoddi yn y sector. Enghraifft dda o hyn yw Kingspan yn sir y Fflint, lle'r agorais ganolfan ryngwladol newydd ar gyfer cwsmeriaid yn ddiweddar, sy'n dangos yr ymrwymiad sydd gan y cwmni i'w waith cynhyrchu yn y rhanbarth.

Gwastraff Waste

Q15 Mick Bates: What is the Welsh Assembly Government doing to encourage the private sector to produce less waste? OAQ1780(FM)

C15 Mick Bates: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i annog y sector preifat i gynhyrchu llai o wastraff? OAQ1780(FM)

The First Minister: The Wales waste strategy contains a number of initiatives to help the private sector to reduce waste, including the Envirowise programme, which supports businesses to achieve resource efficiency, and the waste and resources action programme. In addition, small and medium-sized enterprises are eligible for grants under the materials action programme to promote waste minimisation.

Y Prif Weinidog: Mae strategaeth wastraff Cymru yn cynnwys nifer o fentrau i helpu'r sector preifat i leihau gwastraff, gan gynnwys y rhaglen Envirowise, sy'n cefnogi busnesau i gyflawni effeithlonrwydd adnoddau, a rhaglen weithredu'r cynllun gwastraff ac adnoddau. Yn ychwanegol at hyn, mae busnesau bach a chanolig eu maint yn gymwys i dderbyn grantiau o dan y rhaglen weithredu ar ddeunydd er mwyn hyrwyddo lleihau gwastraff.